



Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

2011 mccc 1

RHAN 2

COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Y Comisiynydd

2 Comisiynydd y Gymraeg

- (1) Bydd yna Gomisiynydd y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel “y Comisiynydd”).
- (2) Rhaid i Brif Weinidog Cymru benodi'r Comisiynydd.
- (3) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r Comisiynydd.
- (4) Am ddarpariaeth ynglŷn ag uniondeb cymeriad y Comisiynydd, gweler Pennod 1 o Ran 8.